Defnydd o Declynnau Digidol
Digital Use Policy

Ysgol Penrhyn-coch
ac Ysgol Penllwyn

Polisi Defnydd Digidol Ysgol Gynradd

Ysgol Penrhyncoch

1. Pwrpas

Mae'r Polisi Defnydd Digidol hwn yn amlinellu'r disgwyliadau, y cyfrifoldebau a'r arferion diogel ar gyfer defnyddio dyfeisiau digidol ac adnoddau ar-lein o fewn ein hysgol. Ei bwrpas yw sicrhau bod technoleg yn gwella dysgu tra'n diogelu lles disgyblion ac yn hyrwyddo ymddygiad parchus a chyfrifol.

Mae rhieni a gofalwyr yn Ysgol Penrhyncoch wedi mynegi diddordeb cynyddol yn y ffordd y defnyddir dyfeisiau digidol a thechnoleg addysgol ("EdTech") yn yr ystafell ddosbarth. Wrth i sgriniau ddod yn rhan gyffredin o fywydau plant, mae teuluoedd wedi gofyn am ganllawiau cliriach, mwy o dryloywder, a dull gofalus-yn enwedig ar gyfer disgyblion iau. Mae polisi cenedlaethol ynghylch ffonau clyfar a chyfryngau cymdeithasol yn parhau i ddatblygu, ac mae cymuned ein hysgol yn ceisio aros yn rhagweithiol ac yn wybodus.

Nod cyffredinol y polisi hwn yw hyrwyddo defnydd cytbwys ac addas i oedran o dechnoleg sy'n cyd-fynd â chanllawiau iechyd, disgwyliadau rhieni, ac arferion gorau sy'n dod i'r amlwg.

---

2. Cwmpas

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i:
· Pob disgybl
· Pob aelod o staff a gwirfoddolwr
· Dyfeisiau, platfformau a systemau sy'n eiddo i'r ysgol
· Dyfeisiau personol a ddefnyddir ar safle'r ysgol neu ar gyfer gweithgareddau sy'n gysylltiedig â'r ysgol

---

3. Egwyddorion Arweiniol

· Dylai technoleg ddigidol gefnogi a chyfoethogi dysgu.
· Mae diogelwch, lles a datblygiad disgyblion yn dod yn gyntaf.

· Disgwylir ymddygiad parchus a chyfrifol bob amser.
· Dylid cefnogi plant i ddatblygu sgiliau dinasyddiaeth ddigidol cryf.

---

4. Defnydd Derbyniol i Ddisgyblion

Disgwylir i ddisgyblion:

· Ddefnyddio dyfeisiau digidol i gefnogi dysgu fel y cyfarwyddir gan staff.
· Dilyn cyfarwyddiadau a disgwyliadau'r dosbarth wrth ddefnyddio technoleg.
· Cyfathrebu'n garedig ac yn barchus ar-lein.
· Cadw gwybodaeth bersonol yn breifat.
· Adrodd am unrhyw beth ar-lein sy'n peri pryder, tristwch neu ddryswch iddynt.

Ni ddylai disgyblion:

· Gael mynediad at gynnwys amhriodol neu nad yw'n addysgol.
· Defnyddio dyfeisiau digidol i fwlio, cynhyrfu neu niweidio eraill.
· Rhannu cyfrineiriau neu wybodaeth bersonol.
· Lawrlwytho neu osod meddalwedd heb ganiatâd.
· Tynnu lluniau, fideos neu recordiadau sain heb ganiatâd.

---

5. Defnydd Rhesymol a Chydbwysedd Iach

Mae'r ysgol yn cydnabod yr angen am gydbwysedd priodol rhwng dysgu digidol a gweithgareddau hanfodol eraill megis chwarae yn yr awyr agored, rhyngweithio cymdeithasol, darllen ac archwilio creadigol.

Bydd yr ysgol yn:
· Sicrhau bod defnydd o ddyfeisiau yn bwrpasol, yn addas i oedran ac yn gysylltiedig â dysgu.
· Cyfyngu ar amser sgrin yn ystod diwrnod yr ysgol lle bo'n briodol.
· Annog seibiannau rheolaidd o sgriniau.
· Hyrwyddo arferion iach a ffordd o fyw gytbwys.

Disgwylir i ddisgyblion:
· Ddefnyddio dyfeisiau dim ond pan ofynnir iddynt wneud hynny.

· Cymryd rhan mewn seibiannau o sgriniau ac ymgymryd â gweithgareddau nad ydynt yn ddigidol.
· Deall pwysigrwydd cydbwyso defnydd o dechnoleg gyda gweithgareddau eraill.

Anogir rhieni a gofalwyr i:
· Gefnogi arferion amser sgrin iach gartref.
· Gosod terfynau priodol i oedran ar ddefnydd o ddyfeisiau digidol.
· Annog gweithgareddau corfforol, creadigol a chymdeithasol.

---

6. Diogelwch Ar-lein

Bydd yr ysgol yn:
· Darparu mynediad rhyngrwyd wedi'i hidlo a'i fonitro.
· Addysgu diogelwch ar-lein a dinasyddiaeth ddigidol fel rhan o'r cwricwlwm.
· Annog trafodaethau agored a gonest am brofiadau ar-lein disgyblion.

Bydd disgyblion yn dysgu i:
· Adnabod cynnwys ar-lein anniogel neu amhriodol.
· Deall pwysigrwydd preifatrwydd a chydsyniad.
· Ceisio cymorth gan oedolyn dibynadwy pan fyddant yn ansicr neu'n anghyfforddus.

---

7. Defnyddio Delweddau a'r Cyfryngau

· Dim ond gyda chydsyniad priodol y caiff lluniau neu fideos o ddisgyblion eu tynnu.
· Defnyddir delweddau yn unol â pholisïau diogelu data a diogelu plant.
· Ni ddylai disgyblion rannu delweddau ohonynt eu hunain neu eraill ar-lein heb ganiatâd.

---

8. Cyfrifoldebau Staff

Disgwylir i staff:

· Fodelu ymddygiad digidol diogel, parchus a phriodol.
· Goruchwylio disgyblion wrth ddefnyddio dyfeisiau digidol.
· Adrodd am bryderon diogelwch ar-lein neu gamddefnydd yn brydlon.
· Sicrhau bod dyfeisiau'r ysgol yn cael eu defnyddio'n gyfrifol ac yn ddiogel.

---

9. Cyfrifoldebau Rhieni a Gofalwyr

Anogir rhieni a gofalwyr i:

· Gefnogi eu plentyn i ddefnyddio technoleg yn ddiogel gartref.
· Trafod diogelwch ar-lein yn rheolaidd gyda'u plentyn.
· Monitro ac arwain defnydd eu plentyn o ddyfeisiau digidol.
· Hysbysu'r ysgol am unrhyw bryderon diogelwch digidol.

---

10. Dyfeisiau Personol

· Dim ond gyda chaniatâd ymlaen llaw y caiff disgyblion ddod â dyfeisiau personol i'r ysgol, mewn amgylchiadau penodol. Mae'r rhain ar gyfer storio yn unig ac ni ddylid eu defnyddio yn ystod diwrnod yr ysgol.
· Rhaid i unrhyw ddyfais bersonol a ddaw i'r ysgol gydymffurfio â'r polisi hwn.
· Ni all yr ysgol dderbyn cyfrifoldeb am golli, dwyn neu ddifrod i ddyfeisiau personol.

---

11. Mesurau Ychwanegol a Dull Cydweithredol

Er mwyn cryfhau dealltwriaeth, tryloywder a defnydd diogel o ddyfeisiau digidol, mae'r ysgol yn anelu i weithio'n gydweithredol gyda rhieni a gofalwyr i:

Cynyddu ymwybyddiaeth o risgiau sy'n gysylltiedig â defnydd digidol:

· Cynnal arolygon i asesu dealltwriaeth rhanddeiliaid o EdTech.
· Cynnig gweithdai ar reoli amser sgrin gartref.
· Darparu gwybodaeth reolaidd drwy gylchlythyrau.

Gwella tryloywder ynghylch defnydd EdTech yn yr ysgol. Gellir rhannu gwybodaeth gyda rhieni am:

· Pa ddyfeisiau sy'n cael eu defnyddio.
· Pwrpas defnyddio dyfeisiau (e.e. dysgu, gwasanaethau ysgol, gwobrau).
· Hyd gweithgareddau digidol.
· A yw dyfeisiau'n cael eu defnyddio ar sail 1:1 neu mewn sesiynau dan arweiniad yr athro.
· A yw defnyddio dyfeisiau yn hanfodol i'r canlyniad dysgu.

Lleihau defnydd sgrin nad yw'n hanfodol:

· Cyfyngu neu leihau adloniant ar sgrin yn ystod chwarae mewn tywydd gwlyb ac amser byrbryd.

I2. Torri'r Polisi

Os na chaiff y polisi hwn ei ddilyn:

· Bydd yr achos yn cael ei ymchwilio.
· Cymerir camau priodol yn unol â pholisi ymddygiad yr ysgol.
· Gall rhieni neu ofalwyr gael eu hysbysu pan fo angen.

I3. Adolygu

Bydd y polisi hwn yn cael ei adolygu'n flynyddol i sicrhau ei fod yn parhau'n gyfredol, yn gytbwys ac yn effeithiol.

Cymeradwywyd gan: _____

Dyddiad: _____

Adolygiad Nesaf: _____

Primary School Digital Use Policy

Ysgol Penrhyncoch

1. Purpose

This Digital Use Policy outlines the expectations, responsibilities, and safe practices for using digital devices and online resources within our school. Its purpose is to ensure that technology enhances learning while safeguarding pupils' wellbeing and promoting respectful and responsible behaviour.

Parents and carers at Ysgol Penrhyncoch have expressed growing interest in how digital devices and educational technology ("EdTech") are used in classrooms. As screens become a regular part of children's lives, families have requested clearer guidance, greater transparency, and a cautious approach—particularly for younger pupils. National policy on smartphones and social media continues to evolve, and our school community aims to remain proactive and informed.

The overarching aim of this policy is to promote a balanced, age-appropriate use of technology that aligns with health guidance, parental expectations, and emerging best practice.

---

2. Scope

This policy applies to:

- All pupils
- All staff and volunteers
- School-owned devices, platforms, and systems
- Personal devices used on school premises or for school-related activity

---

3. Guiding Principles

- Digital technology should support and enrich learning.

- Pupil safety, wellbeing, and development come first.
- Respectful and responsible behaviour is expected at all times.
- Children should be supported to develop strong digital citizenship skills.

---

4. Acceptable Use for Pupils

Pupils are expected to:

- Use digital devices to support learning as directed by staff.
- Follow instructions and classroom expectations when using technology.
- Communicate kindly and respectfully online.
- Keep personal information private.
- Report anything online that worries, upsets, or confuses them.

Pupils must not:

- Access inappropriate or non-educational content.
- Use digital devices to bully, upset, or harm others.
- Share passwords or personal information.
- Download or install software without permission.
- Take photos, videos, or audio recordings without consent.

---

5. Reasonable Use and Healthy Balance

The school recognises the need for an appropriate balance between digital learning and other essential activities, such as outdoor play, social interaction, reading, and creative exploration.

The school will:

- Ensure device use is purposeful, age-appropriate, and linked to learning.
- Limit screen time during the school day where appropriate.

- Encourage regular breaks from screens.
- Promote healthy habits and balanced lifestyles.

Pupils are expected to:

- Use devices only when instructed.
- Participate in breaks from screens and engage in non-digital activities.
- Understand the importance of balancing technology use with other activities.

Parents and carers are encouraged to:

- Support healthy screen-time routines at home.
- Set age-appropriate limits on digital device use.
- Encourage physical, creative, and social activities.

---

6. Online Safety

The school will:

- Provide filtered and monitored internet access.
- Teach online safety and digital citizenship as part of the curriculum.
- Encourage open, honest discussions about pupils' online experiences.

Pupils will learn to:

- Recognise unsafe or inappropriate online content.
- Understand the importance of privacy and consent.
- Seek help from a trusted adult when unsure or uncomfortable.

---

7. Use of Images and Media

- Photos or videos of pupils will only be taken with appropriate consent.
- Images will be used in accordance with data protection and safeguarding policies.
- Pupils must not share images of themselves or others online without permission.

---

8. Staff Responsibilities

Staff are expected to:

- Model safe, respectful, and appropriate digital behaviour.
- Supervise pupils when using digital devices.
- Report online safety concerns or misuse promptly.
- Ensure school devices are used responsibly and securely.

---

9. Parent and Carer Responsibilities

Parents and carers are encouraged to:

- Support their child in using technology safely at home.
- Discuss online safety regularly with their child.
- Monitor and guide their child's use of digital devices.
- Inform the school of any digital safety concerns.

---

10. Personal Devices

- Pupils may only bring personal devices to school with prior permission, granted in specific circumstances. These are only for storage purposes not to be used during the school day.
- Any personal device brought to school must comply with this policy.
- The school cannot accept responsibility for loss, theft, or damage to personal devices.

11. Additional Measures and Collaborative Approach

To strengthen understanding, transparency, and safe use of digital devices, the school aims to work collaboratively with parents and carers to:

Increase awareness of risks associated with digital use:

- Conduct surveys to assess stakeholder understanding of EdTech.
- Offer workshops on managing screen time at home.
- Provide regular information via newsletters.

Improve transparency about EdTech use in school, information can be shared with parents about:

- Which devices are used.
- The purpose of device use (e.g., learning, assemblies, rewards).
- Duration of digital activities.
- Whether devices are used 1:1 or in teacher-led sessions.
- Whether device use is essential to the learning outcome.

Reduce non-essential screen use:

- Limit or reduce screen-based entertainment during wet play and snack time.

---

12. Breaches of the Policy

If this policy is not followed:

- The incident will be investigated.
- Appropriate action will be taken in line with the school's behaviour policy.
- Parents or carers may be informed when necessary.

---

13. Review

This policy will be reviewed annually to ensure it remains current, balanced, and effective.

Approved by: _____
Date: _____
Next Review: _____